Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Rhaglen Brechu Rhag y Ffliw





## Dogfen friffio ar gyfer penaethiaid a staff ym mhob lleoliad addysg

Mae'r briff hwn ar gyfer **ysgolion meithrin, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, a lleoliadau addysg eraill** ynghylch y rhaglen brechu rhag y ffliw i blant oed ysgol yng Nghymru yr hydref/y gaeaf hwn.

Gwnewch yn siŵr fod gan bob aelod o staff sydd angen gwybod am y rhaglen fynediad at yr wybodaeth hon.



**!** **Mae cael brechlyn ffliw bob blwyddyn yn un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn rhag y ffliw**

### 5 rheswm dros gael y brechlyn ffliw:

1. Mae'r brechlyn ffliw yn helpu **i amddiffyn plant a phobl ifanc** rhag salwch sy'n gysylltiedig â'r ffliw, a all fod yn ddifrifol, hyd yn oed i'r rhai sy'n iach.
2. Mae plant a phobl ifanc yn lledaenwyr cyffredin o'r ffliw, ac yn aml byddant yn trosglwyddo'r ffliw i bobl eraill.
3. Mae brechu plant a phobl ifanc yn helpu i leihau lledaeniad y ffliw i'w teuluoedd, eu ffrindiau a'r gymuned ehangach.
4. Mae'n **rhad ac am ddim, yn gyflym, yn hawdd ac yn ddiogel.** Chwistrell trwyn cyflym a syml yw'r brechlyn ffliw a gynigir yn rheolaidd i blant yn yr ysgol.
5. Mae'r brechlyn ffliw yn helpu **i atal absenoldebau o'r ysgol sy'n gysylltiedig â'r ffliw**.

## Cymhwysedd ar gyfer brechiad ffliw

- Bydd pob **plentyn ifanc (dwy oed ar 31 Awst, hyd at bedair oed)** yn cael cynnig brechiad ffliw am ddim. Bydd hwn yn cael ei roi ym mhractis meddygon teulu'r plentyn fel arfer ond bydd yn cael ei roi mewn meithrinfeydd mewn rhai ardaloedd yng Nghymru.

- Bydd **pob plentyn oedran ysgol** yng Nghymru, o'r **dosbarth derbyn hyd at flwyddyn ysgol 11, yn cynnwys yr oedran hwnnw,** yn cael cynnig brechiad rhag y ffliw am ddim yr hydref/y gaeaf hwn er mwyn helpu i'w amddiffyn ef ac eraill rhag y ffliw.


- Mae staff sydd **mewn mwy o berygl o gymhlethdodau** os ydynt yn dal y ffliw hefyd yn gymwys i gael y brechlyn ffliw am ddim yn eu practis meddygon teulu neu fferyllfa gymunedol. Gall rhai awdurdodau lleol gynnig brechiad rhag y ffliw i staff ysgol drwy eu gwasanaeth iechyd galwedigaethol, ond nid yw hyn yn rhan o raglen frechu'r GIG. Mae rhagor o wybodaeth am gymhwysedd ar gael yn **icc.gig.cymru/brechlynffliw/cymhwystra**

## Ynglŷn â'r ffliw a'r brechlyn

- Mae'r ffliw yn gallu bod yn ddifrifol iawn. Feirws sy'n achosi'r ffliw, a gall cymhlethdodau difrifol megis broncitis, niwmonia a heintiau yn y glust ddatblygu ymhlith rhai plant.

- Bron bob blwyddyn, bydd angen triniaeth ar rai plant mewn uned gofal dwys oherwydd y ffliw. Yn 2024 aeth dros 460 o blant a phobl ifanc i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yng Nghymru oherwydd y ffliw.

- Mae brigiadau o achosion o'r ffliw yn digwydd yn ystod y rhan fwyaf o aeafau. Mewn gaeaf nodweddiadol, gall miloedd o bobl farw o afiechydon sy'n gysylltiedig â'r ffliw yn y DU. **Mae cael brechlyn ffliw bob blwyddyn yn un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn rhag y ffliw.**



- Bydd y rhan fwyaf o blant yn cael y brechlyn ffliw drwy **chwistrell trwyn** syml. Niwl mân yw'r brechlyn sy'n cael ei chwistrellu i fyny'r trwyn, trwy'r ddwy ffroen. Y chwistrell trwyn yw'r brechlyn ffliw a argymhellir ar gyfer y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc. **Nid yw'n achosi'r ffliw.**

- Ni all nifer fach o blant gael y chwistrell trwyn oherwydd rhai triniaethau neu gyflyrau meddygol sydd ganddynt eisoes. Mae'r ffurflen gydsynio'n gofyn cwestiynau i rieni/gwarcheidwaid a fydd yn helpu'r tîm sy'n rhoi'r brechlynnau i adnabod y plant hyn. Mae'n bosibl y cynigir y brechlyn ffliw i'r plant hyn trwy **bigiad.**

- Mae'r brechlyn chwistrell trwyn yn cynnwys olion bach o gelatin moch wedi'i buro'n dda, a ddefnyddir hefyd mewn amrywiaeth o feddyginiaethau hanfodol.

- **Nid yw'r brechlynnau ffliw a roddir trwy bigiad yn cynnwys gelatin.** Mae rhai grwpiau ffydd fel y cymunedau Mwslimaidd ac Iddewig wedi cymeradwyo defnyddio meddyginiaethau nad ydynt yn cael eu cymryd drwy'r geg a brechlynnau sy'n cynnwys gelatin.  Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **icc.gig.cymru/GelatinPork**

- Y brechlyn chwistrell trwyn yw'r brechlyn a argymhellir ar gyfer plant sy'n gallu ei gael gan ei fod yn cynnig amddiffyniad effeithiol. Fodd bynnag, dylai'r bobl hynny y byddai'n well ganddynt fod eu plentyn yn cael y brechlyn trwy bigiad arall nad yw'n cynnwys gelatin nodi hynny ar y ffurflen gydsynio.

- Yn ddelfrydol, bydd y brechlyn chwistrell trwynol a'r brechlyn ffliw trwy bigiad ar gael mewn lleoliadau addysgol yn ystod yr un sesiwn. Fodd bynnag, efallai y bydd gofyn i rai plant a phobl ifanc fynd i ganolfan frechu gymunedol neu eu practis meddygon teulu i gael y pigiad.

- I gael rhagor o wybodaeth am y brechlynnau ffliw sydd ar gael, gan gynnwys yr hyn sydd ynddynt a'r sgil-effeithiau posibl, ewch i **medicines.org.uk/emc** (safle allanol, Saesneg yn unig). Rhowch enw'r brechlyn yn y blwch chwilio. Gallwch hefyd weld y daflen i gleifion ar-lein. Gallwch ddod o hyd i enw'r brechlyn yn **icc.gig.cymru/AmYBrechlynFfliw**



# Pecynnau cydsynio a gwybodaeth am y brechiad rhag y ffliw

Bydd pecynnau cydsynio ar gyfer disgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu rhoi i leoliadau addysg cyn y sesiwn brechu rhag y ffliw a drefnwyd. Gall y pecynnau hyn fod ar bapur neu ar ffurf ddigidol.

## Mae pob pecyn cydsynio fel arfer yn cynnwys:

- **A Llythyr (neu e-bost), taflen a ffurflen gydsynio.** Mae'r llythyr a'r daflen yn rhoi gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid am y brechlyn a'i fanteision. Rhoddir gwybodaeth er mwyn sicrhau cydsyniad ar sail gwybodaeth i blant a phobl ifanc gael y brechlyn ffliw. Gofynnir i rai lleoliadau anfon y rhain yn electronig.
- Mae'r daflen ar gael mewn **fformatau hygyrch** (yn cynnwys Print Bras, Hawdd ei Ddeall, Iaith Arwyddion Prydain a Sain fel arfer). Er mwyn cyrchu'r fformatau hyn, dylid cyfeirio rhieni a gwarcheidwaid i: **icc.gig.cymru/brechlynnau/adnoddau-hygyrch**
- **Mae angen cael cydsyniad cyn rhoi brechiad.** Er ein bod yn argymell bod disgyblion yn cael **cydsyniad eu rhieni/gwarcheidwaid,** bydd rhai plant o oedran ysgol uwchradd yn gallu cydsynio'n gyfreithiol drostynt hwy eu hunain. Gall hyn gynnwys rhai plant sydd o dan 16 oed, ond dim ond os bydd yr unigolyn sy'n rhoi'r brechlyn yn eu hasesu fel rhai sy'n ddigon aeddfed i ddeall yn llawn yr hyn sy'n cael ei gynnig. Gelwir hyn yn 'gymhwysedd Gillick'. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, chwiliwch am 'cydsynio' yn **111.wales.nhs.uk (safle allanol), neu siaradwch â'ch nyrs ysgol neu eich tîm imiwneiddio.**
- Pan fydd pobl ifanc yn rhoi eu cydsyniad eu hunain, mae'n dal yn well bod rhieni/gwarcheidwaid yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad. Os yw'r unigolyn ifanc yn cytuno, bydd y rhiant/gwarcheidwad yn cael gwybod bod y brechiad wedi'i roi.
- Gofynnir i leoliadau addysg ganiatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddefnyddio eu barn glinigol wrth gymhwyso asesiad cymhwysedd Gillick fel ffordd o gael hunan-gydsyniad gan y bobl ifanc lle y bo'n briodol.
- Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu bryderon gan rieni/gwarcheidwaid ynglŷn â hunan-gydsyniad a phroses asesu cymhwysedd Gillick at nyrs ysgol neu dimau imiwneiddio'r bwrdd iechyd.



## Sut mae cydsyniad yn cael ei gasglu:

- Anfonir **ffurflenni cydsynio electronig** yn uniongyrchol gan y rhieni/gwarcheidwaid at y tîm nyrsio ysgol neu'r tîm imiwneiddio.
- Efallai y gofynnir i'ch lleoliad gasglu **ffurflenni cydsynio papur** wedi'u cwblhau gan rieni/gwarcheidwaid ar ran y tîm nyrsio ysgol neu'r tîm imiwneiddio, ac i annog dychwelyd y ffurflenni cydsynio nad ydynt wedi cael eu dychwelyd. Dylid **dychwelyd ffurflenni erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno** gyda'r nyrs ysgol neu'r tîm imiwneiddio.
- Mewn meithrinfeydd, dylid dychwelyd y ffurflen i'r person neu'r lle a enwir ar y ffurflen neu ar y llythyr erbyn y dyddiad a nodir.

## Pwy fydd yn rhoi'r brechlyn i'r plant:

- Bydd y rhaglen ar gyfer plant oedran ysgol yn cael ei darparu gan nyrs ysgol neu dîm imiwneiddio a gyflogir gan y GIG.
- Byddant yn rhoi'r brechiad yn unol â safonau a osodwyd yn genedlaethol. Mae gan frechwyr y GIG gymwysterau a hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant diogelu. Maent hefyd wedi'u hyfforddi'n llawn i ateb unrhyw gwestiynau gan ddisgyblion, athrawon, a rhieni/gwarcheidwaid am y brechlyn ffliw.
- Mewn rhai ardaloedd o Gymru, gall plant dwy a thair oed gael eu brechlyn ffliw mewn meithrinfa. Gall y brechlyn gael ei roi gan y tîm nyrsio ysgol neu'r tîm imiwneiddio, neu gan y gwasanaeth ymwelwyr iechyd.



- Rhowch **dawelwch meddwl** i rieni a gofalwyr ynglŷn ag **effeithiolrwydd a diogelwch** y brechlyn ffliw.
- Efallai y bydd gan ddisgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid gwestiynau am y brechlyn. Rhowch wybod iddynt fod rhagor o wybodaeth **ar** gael yn **icc.gig.cymru/brechlynffliw**
- Defnyddiwch eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol neu sianeli cyfathrebu i rannu cynnwys perthnasol sydd ar gael o **phw.brandkitapp.com**




## Sut gall eich lleoliad gefnogi'r rhaglen brechu rhag y ffliw

Mae'r berthynas rhwng lleoliadau addysg a thîm nyrsio ysgol/imiwneiddio y GIG yn hanfodol er mwyn amddiffyn iechyd cenedlaethau'r dyfodol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod brechu yn atal hyd at 5 miliwn o farwolaethau ledled y byd oherwydd clefydau sy'n cynnwys y ffliw, bob blwyddyn.

**! Mae eich cefnogaeth gyda'r rhaglen ffliw yn hanfodol ac mae'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr.**

**Bydd y canlynol yn helpu i gynnal nifer y bobl sy'n cael brechiadau ac yn lleihau aflonyddwch i'ch lleoliad chi:**

- Cyn diwrnod y brechiadau, siaradwch â'r nyrs ysgol neu'r tîm imiwneiddio i drefnu lleoliad addas a thrafod gofynion.
- Os gofynnir amdano, gwnewch yn siŵr bod prosesau ar waith i ddarparu rhestr ddosbarth o blant a phobl ifanc sydd yn y garfan oedran gymwys, gan gynnwys manylion cyswllt a rhif ffôn eu rhieni neu warcheidwaid. Mae darparu'r wybodaeth hon yn hwyluso cydsyniad amserol, cyfathrebu effeithiol â theuluoedd, cynllunio a chyflwyno sesiynau brechu effeithlon, ac yn cefnogi i niferoedd uchel gael eu himiwneiddio.
- Mae'n bwysig rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid pa ddiwrnod y bydd brechiadau'n cael eu rhoi. Bydd y pecyn cydsynio'n cynnwys yr wybodaeth hon. Gwnewch yn siŵr fod y pecynnau cydsynio'n cael eu dosbarthu i rieni/gwarcheidwaid. Gellir anfon neges (e.e., e-bost neu neges destun) at rieni/gwarcheidwaid i'w hatgoffa o'r canlynol:
  - dyddiad(au) brechu; a
  - dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y ffurflen gydsynio.
- Arddangoswch adnoddau hyrwyddo mewn mannau a fydd yn cael eu gweld gan rieni, plant a phobl ifanc. Mae posteri a thaflenni ar gael am ddim gan **icc.gig.cymru/adnoddau-gwybodaeth-iechyd**
- Siaradwch â'ch nyrs ysgol neu'r tîm imiwneiddio os oes gennych ymholiadau neu os ydych yn ymwybodol o unrhyw gamwybodaeth sy'n cael ei lledaenu am y brechiad. Efallai y bydd rhieni/gwarcheidwaid plant yn y feithrinfa eisiau siarad â'u hymwelydd iechyd.



## Rhagor o wybodaeth am y brechlyn ffliw

- Mae brechlynnau ffliw yn ddiogel ac wedi cael eu rhoi i filiynau o blant ledled y byd.
- Mae sgil-effeithiau fel arfer yn ysgafn, ac yn para am ddiwrnod neu ddau’n unig, ond nid yw pawb yn eu cael.
- Y sgil-effeithiau mwyaf cyffredin yw llai o awydd bwyd, teimlo'n flinedig, cur pen/pen tost, cyhyrau poenus a thymheredd. Sgil-effaith mwyaf cyffredin cael y brechlyn drwy chwistrell trwyn yw trwyn yn rhedeg neu wedi blocio. Gall cael y brechlyn drwy bigiad achosi braich ddolurus yn y fan lle cafodd y pigiad ei roi. Mae sgil-effeithiau difrifol yn anghyffredin iawn.
- Mae’r brechlyn ffliw yn bodloni'r holl safonau diogelwch. Unwaith y bydd brechlyn yn cael ei ddefnyddio, caiff ei fonitro’n barhaus o ran pa mor ddiogel ydyw.
- Dylid rhoi gwybod am sgil-effeithiau a amheuir ar-lein yn **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (safle allanol, Saesneg yn unig). Gellir rhoi gwybod am sgil-effeithiau hefyd drwy ddefnyddio’r ap Yellow Card neu drwy ffonio **0800 731 6789** (dydd Llun i ddydd Gwener, 9yb i 5yh).
- Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch brechlynnau, neu roi gwybod am sgil-effaith, ewch i **www.mhra.gov.uk** (safle allanol, Saesneg yn unig).



Mae’r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i **icc.gig.cymru/brechlynnau**

**Mae Brechu yn achub bywydau**
**Vaccination saves lives**

## Gair o ddiolch

Mae cyflwyno rhaglenni imiwneiddio drwy leoliadau addysg yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad hawdd at frechlynnau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cynifer â phosib o bobl yn cael eu brechu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd i blant a phobl ifanc.

Mae sicrhau bod nifer fawr o blant a phobl ifanc yn cael eu brechu rhag y ffliw yn gwella’r amddiffyniad i bawb drwy leihau lledaeniad y ffliw yn ein cymunedau.

Rydym ddiolchgar am gefnogaeth lleoliadau addysg i gynnal y sesiynau brechu hyn, ac am gyfathrebu â rhieni/gwarcheidwaid ynglŷn â phryd y bwriedir cynnal y sesiynau.

**Os oes gennych ymholiadau neu gwestiynau ynglŷn â chyflwyno rhaglen brechu rhag y ffliw yn eich lleoliad chi, cyfeiriwch y rhain at dîm nyrsio ysgol neu dîm imiwneiddio’r bwrdd iechyd lleol.**

**Mae manylion cyswllt timau imiwneiddio eich bwrdd iechyd lleol ar gael o icc.gig.cymru/cysylltiadau-brechu**

**Sganiwch fi i fynd i dudalen we plant oedran ysgol a phobl ifanc**

**SKU252**

Fersiwn 3

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw asiantaeth iechyd y cyhoedd cenedlaethol Cymru. Rydym yn gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru.

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda chydnabyddiaeth i Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ac Iechyd Cyhoeddus yr Alban)

ISBN 978-1-83766-912-7

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Further information about the flu vaccine

- Flu vaccines are safe and have been given to millions of children worldwide.
- Side effects are usually mild, and only last for a day or two, but not everyone gets them.
- The most common side effects are reduced appetite, feeling tired, headache, aching muscles and getting a temperature. Having the vaccine by nasal spray most commonly causes a runny or blocked nose. Having the vaccine by injection may cause a sore arm at the site of injection. Serious side effects are extremely rare.
- The flu vaccine meets all safety standards. Once a vaccine is in use, its safety continues to be monitored.
- Suspected side effects should be reported online at **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (external site). Reports can also be submitted using the Yellow Card app or by calling **0800 731 6789** (Monday to Friday, 9am to 5pm).
- If you would like more information on the safety of vaccines, or to report a side effect go to **www.mhra.gov.uk** (external site).



The information in this leaflet is correct at the time of publication. For the most up-to-date information, please visit **phw.nhs.wales/vaccines**

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

## A note of thanks

Delivering immunisation programmes through educational settings is vital for ensuring children and young people have easy access to vaccines. This helps to achieve high uptake of vaccination and reduces inequalities in health for children and young people.

Maintaining a high uptake of flu vaccination in children and young people improves protection for all by reducing the spread of flu in our communities.

We are grateful for the support of educational settings in hosting these vaccination sessions, and for communicating to parents/guardians when the sessions are scheduled to take place.

**If you have any enquiries or questions regarding the delivery of the flu vaccination programme in your setting, please direct these to the local health board school nursing or immunisation team.**

**Contact details for your local health board immunisation teams are available from phw.nhs.wales/vaccine-contacts**

**Scan me for to go to the school age children and young people webpage**

**SKU252**

Version 3

Public Health Wales is the national public health agency in Wales. We work to protect and improve health and well-being and reduce health inequalities for the people of Wales.

© Public Health Wales NHS Trust (with acknowledgement to Public Health Scotland and UK Health Security Agency)

ISBN 978-1-83766-912-7

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales



## How your setting can support the flu vaccination programme

The relationship between educational settings and the NHS school nursing/immunisation team is vital for protecting the health of future generations. The World Health Organization estimates that vaccination prevents up to 5 million deaths globally every year from diseases, including flu.

**! Your support with the flu programme is highly valued and essential.**

**The following will help to maintain vaccination uptake and minimise disruption to your setting:**

- Ahead of the day of vaccinations, talk to the school nurse or immunisation team to arrange a suitable location and requirements.
- If requested, please ensure that processes are in place to provide a class list of children and young people within the eligible age cohort, including their parents' or guardians' contact details and telephone numbers. The provision of this information facilitates timely consent, effective communication with families, efficient vaccination session planning and delivery, and supports improved immunisation uptake.
- It is important to let parents/guardians know which day vaccinations will take place. The consent pack will contain this information. Please ensure the consent packs are distributed to parents/guardians. Communication (e.g., an email or a text) can be sent to parents/guardians to remind them of the:
  - vaccination date(s), and
  - date they need to return the consent form by.

- Please **reassure** parents and care givers of the **effectiveness and safety** of the flu vaccine.
- Pupils and their parents/guardians may have questions about the vaccine. Let them know that further information is available at **phw.nhs.wales/fluvaccine**
- Use your social media accounts or communication channels to share relevant content available from **phw.brandkitapp.com**




- Display promotional resources in areas that will be seen by parents, children and young people. Posters and leaflets are available to order for free from **phw.nhs.wales/health-information-resources**
- Speak to your school nurse or immunisation team if you have any queries or are aware of any misinformation or disinformation being circulated about the vaccination. Parents/guardians of children in nursery may wish to speak to their health visitor.



# Consent packs and flu vaccination information

Consent packs for pupils and their parents/guardians will be supplied to educational settings before the scheduled flu vaccination session. These may be paper-based or in a digital format.

## Each consent pack usually contains:

- A **letter (or email), leaflet, and consent form**. The letter and leaflet gives pupils and parents/guardians an understanding of the vaccine and its benefits. Information is provided to enable informed consent for children and young people to receive the flu vaccine. Some settings will be asked to send these electronically.
- The leaflet is available in **accessible formats** (usually including Large Print, Easy Read, British Sign Language and Audio). To access these formats parents and guardians should be directed to **phw.nhs.wales/vaccines/accessible-information**
- **Consent is required before a vaccination is given.** While we recommend that pupils get **agreement from their parents/guardians**, some children **of secondary school age** will be able to legally consent for themselves. This may include some children who are under 16, but only if they are assessed by the person giving the vaccine as being mature enough to fully understand what is being offered. This is called 'Gillick competence'. For more information about this, search 'consent' at **111.wales.nhs.uk (external site), or speak to your school nurse or immunisation team.**
- Where young people give their own consent, it is still preferred that parents/guardians are involved in the decision making. If the young person is in agreement, the parent/guardian will be informed that the vaccination has been given.
- Educational settings are asked to allow health professionals to use their clinical judgement in the application of Gillick competency assessment as a means of obtaining self-consent from young people where appropriate.
- Any queries or concerns from parents/guardians about self-consent and the process of Gillick competency assessment should be directed to health board school nurse or immunisation teams.



## How consent is collected:

- **Electronic consent forms** are sent directly from the parents/guardians to the school nursing or immunisation team.
- Your setting may be asked to collect completed **paper consent forms** from parent/guardians on behalf of the school nursing or immunisation team, and to follow up on non-returned consent forms. Forms should be **returned by the deadline agreed** with the school nurse, immunisation team.
- In nursery settings, please return the form to the person or place named on the form or letter by the date shown.

## Who will give the vaccine to the children:


- The school age programme will be delivered by an NHS-employed school nursing or immunisation team.
- They will administer the vaccination according to nationally set standards. NHS vaccinators have appropriate qualifications and training, including safeguarding training. They are also fully trained to answer any questions from pupils, teachers, and parents/guardians about the flu vaccine.
- In some areas of Wales, children aged two and three years may have their flu vaccine in nursery. This may be by the school nursing or immunisation team, or by the health visiting service.

## Eligibility for flu vaccination

- All young **children (aged two years on 31 August, to four years)** will be offered a free flu vaccination. This will usually be given in their GP practice, but in some areas in Wales this will be done at nursery.
- **All school aged children** in Wales, from **reception class up to and including school year 11**, will be offered a free flu vaccination this autumn/winter to help protect them and others from flu.
- Staff who are **at increased risk of complications** if they catch flu are also eligible to get the free flu vaccine from their GP surgery or a community pharmacy. Some local authorities may offer flu vaccination for school staff through their occupational health service, but this is not part of the NHS vaccination programme. More information on eligibility can be found at **phw.nhs.wales/fluvaccine/eligibility**

## About flu and the flu vaccine

- Flu can be very serious. It is caused by a virus, and some children can develop serious complications, such as bronchitis, pneumonia and ear infections.
- Most years some children need treatment in intensive care because of flu. In 2024, over 460 children and young people in Wales went to A&E with flu.
- There are outbreaks of flu most winters. In a typical winter, thousands of people may die from flu-related illnesses in the UK. **Having a flu vaccine every year is one of the best ways to protect against flu.**



- Most children will receive the flu vaccine as a simple **nasal spray**. This is a fine mist that is sprayed up the nose from the tip of each nostril. The nasal spray is the recommended flu vaccine for most children and young people. **It does not cause flu.**
- A small number of children cannot have the nasal spray because of some pre-existing medical conditions or treatments. The consent form asks parents/guardians questions that will help the team giving the vaccines to identify these children. These children may be offered the flu vaccine by **injection**.
- The nasal spray vaccine contains small traces of highly purified pork gelatine, which is also used in a range of essential medicines.
- **Flu vaccines given by injection are gelatine-free**. Some faith groups such as the Muslim and Jewish communities have approved the use of non-oral medicines and vaccines that contain gelatine.  More information is available at **phw.nhs.wales/PorkGelatine**
- The nasal spray vaccine is the recommended vaccine for children who can receive it, as it offers effective protection. However, those who would prefer their child to have the alternative gelatine-free vaccine by injection, should highlight on the consent form.
- Ideally, the nasal spray vaccine and the flu vaccine by injection will be made available in educational settings during the same session. However, some children and young people may be required to attend a community vaccination centre or their GP surgery to receive the injection.
- To find out more about the flu vaccines available, including their contents and possible side effects, go to **medicines.org.uk/emc** (external site). Enter the name of the vaccine in the search box. You can also see the patient leaflet online. You can find the name of the vaccine at **phw.nhs.wales/AboutTheFluVaccine**



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Flu Vaccination Programme





## Briefing document for head teachers and staff at all educational settings

This briefing is for **nursery schools, primary schools, secondary schools, and other educational settings** regarding the school-aged influenza (flu) vaccination programme in Wales this autumn/winter.

Please ensure that all staff who need to know about the programme have access to this information.

**Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg. This information is available in Welsh.**



**! Having a flu vaccine every year is one of the best ways to protect against flu.**

### 5 reasons for having the flu vaccine:

1. The flu vaccine helps **protect children and young people** from flu-related illness, which can be serious, even for those who are healthy.
2. Children and young people are common spreaders of flu, often passing flu on to other people.
3. Vaccinating children and young people helps reduce the spread of flu to their families, friends, and the wider community.
4. It is **free**, **quick, easy, and safe**. The flu vaccine routinely offered to children in school is a quick and simple nasal spray.
5. The flu vaccine helps **prevent flu-related absences from school**.